


Bosherston/San Gofan

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 4.4 milltir (7.1 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Bosherston 387, Coastal Cruiser

CYMERIAD: Gweddol wastad, 2 km o gerdded ar y ffordd ar lonydd tawel, ymyl clogwyni mewn mannau

CHWILIWCH AM: Clogwyni carreg galch • traethau • pyllau lili (Gwarchodfa Natur Genedlaethol) • brain coesgoch


MWY O WYBODAETH: Mynediad at Benrhyn Sain Gofan yn dibynnu ar amserau tanio. Ffoniwch 01646 662367 am fanylion

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffordd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - - - Llwybrau Cyhoeddus
- P** Maes Parcio
- WC** Toileddau Cyhoeddus
- Safle Bws



Bosherston/San Gofan

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 4.4 milltir (7.1 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Bosherston 387, Coastal Cruiser

Cyfeirnod map: SR962949

Taith sy'n eich tywys chi trwy Warchodfa Natur Pyllau Lili poblogaidd Bosherston.

Chwiliwch am: Clogwyni carreg galch, traethau, pyllau lili (Gwarchodfa Natur Genedlaethol), brain coesgoch

Mae Bosherston, ar ochr de-ddwyreiniol penrhyn Castellmartin, wedi dod yn enwog am ei byllau lili. Crëwyd y pyllau gan Ystâd Stackpole yn y 18fed a 19eg ganrif trwy flocio tri dyffryn cul o garreg calch, ac maen nhw nawr yn cael eu cadw fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r ardal yn enwog am ddyfrgwn, adar y dŵr a liliis dŵr, ac mae gan y Pyllau stociau da o bysgod bras, yn enwedig penhwyaid a gwarchennod, gyda rhufellod, draenogiaid, a llysywod yno hefyd.

Gellir gweld llond lle o adar yma gyda'r cwtiar, iâr ddŵr, alarch mud, crëyr a glas y dorlan yn y gwelyau rhedyn. Ar yr arfordir, mae'r ogofau, bwâu, cilfachau, chwythdyllau a staciau yn ganlyniad i'r tonnau yn taro ar y clogwyni carreg galch ac maen nhw'n wych ar gyfer adar y môr gan gynnwys y gigfran, y fulfran werdd, gwenoliaid, piod y môr, jac-y-do ac, wrth gwrs, y fran goesgoch. Mae'r blodau gwyllt yn doreithiog - mae'r serenyn a lafant y môr yn arbennig o hardd.

Efallai y bydd mynediad at Benrhyn Sain Gofan wedi'i gyfyngu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Gerllaw, mae yna draeth hyfryd a thwyni tywod yn Broad Haven.

Mae Tîm Jones, Parcmon Sector y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Mae'r daith hon yn eich tywys chi trwy un o'r tair Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n le gwych i weld dyfrgwn, dw i wedi eu gweld nhw yma sawl gwaith. Am y cyfle gorau i weld un eich hun, ewch yn gynnwys - a gadewch eich ci gartref."

Cymeriad: Gweddol wastad, 2 km o gerdded ar y ffordd ar lonydd tawel, ymyl clogwyni mewn manau.

Mwy o wybodaeth: Mynediad at Benrhyn Sain Gofan yn dibynnu ar amserau tanio. Ffoniwch 01646 662367 am fanylion.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

